| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **13 Mai 2010** |
| **ADRODDIAD** | **AIL ADOLYGIAD O'R CYNLLUN TAIR BLYNEDD** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo ail adolygiad y Cynllun Tair Blynedd ar gyfer Blwyddyn 3 (2010-11)** |
| **AWDUR**<br>**AREWINYDD PORTFFOLIO** | **Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella**<br><br>**Cynghorydd Dyfed Edwards** |

**CEFNDIR**

1. Mae gwaith wedi bod yn digwydd i gynnal yr ail adolygiad o Gynllun Tair Blynedd y Cyngor, sef blwyddyn olaf y Cynllun presennol( 2008-2011) Mae'n bwysig i gynllunio a rhoi arweiniad dros tymor hwy, ond bydd y Cyngor hefyd yn cofio cytunwyd i'w adolygu yn achlysurol er mwyn:

    - Cadw llygad ar unrhyw faterion sydd yn newid i sicrhau bod y Cyngor yn gallu ymateb yn briodol i newididau yn yr amgylchedd gan gynnwys materion polisi , perfformiad, ymchwil a gwleidyddol

2. Mae cryn waith wedi digwydd ar lefel aelodau a swyddogion i ystyried unrhyw faterion sydd angen sylw yn yr adolygiad. Cynhaliwyd gweithdai adolygu ac yn ystod y gweithdai, nodwyd rhai factorau allweddol fyddai angen cymryd i ystyriaeth wrth adolygu'r Cynllun gan gynnwys:

    - Cyfyngiadau ariannol fydd ar y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf
    - Yr angen i sicrhau ffocws ar y cwsmer ac ymgysylltu
    - Canfod y dulliau gorau ac arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau, gan gynnwys cydweithio
    - Yr angen felly i drawsnewid y Cyngor i ymateb i'r her

3. Ystyriwyd pa fath o Gyngor oedd angen i Gyngor Gwynedd fod o fewn y blynyddoedd nesaf a cytunwyd bod angen ychwanegu rhaglenni i'r Cynllun Tair Blynedd fyddai'n tywys y Cyngor tuag at drawsnewid, gan gynnwys cynnal hunan asesiad o ble mae'r Cyngor arni nawr a ble mae angen bod i'r dyfodol. Yn y gweithdy olaf ym mis Ionawr 2010, cytunwyd yn ogystal ar y rhaglenni fyddai'n dod allan o'r flwyddyn olaf

4. Ar 23 Ebrill, cyflwynwyd y cynllun drafft i'r Prif Bwyllgor Craffu gan wahodd Cadeiryddion ac is Gadeiryddion gweddill y Pwyllgorau Craffu i'r cyfarfod. Mae **Atodiad 1** yn crynhoi sylwadau'r Pwyllgor Craffu ac ymateb i'r sylwadau

**CYNIGION AR GYFER CYNLLUN BLWYDDYN TRI ( 2010-11) er mwyn cryfhau gweithrediad**

5. Yn **Atodiad 2** sydd ynghlwm, ceir copi o'r ddogfen diwygiedig ar gyfer y flwyddyn 2010-11. Fe welwch bod y Cynllun erbyn hyn wedi newid ei siâp gyda'r pedair Amcan yn parhau fel cyfeiriad dros y Cynllun yn ei gyfanrwydd a gyda'r prif faterion wedi eu cynnwys o dan 6 Rhaglen.

6. Mae prif faterion yn awr felly yn eistedd o dan 6 Rhaglen Strategol fel a ganlyn:

- Trawsffurfio'r Cyngor
- Economi ac Adfywio
- Amgylchedd ac Isadeiledd
- Plant a Phobl Ifanc
- Gwerth am Arian
- Pobl Bregus

gyda nifer fechan o brosiectau strategol ar wahan yn cynnwys y maes Iaith ac Arbedion Cam 2. Bydd pob un o'r Rhaglenni Strategol yn cael eu harwain drwy trefn Rheolaeth Rhaglen .

Wrth gynnal yr adolygiad, mae ymgais hefyd wedi bod i wella ar ddiffinio'r canlyniadau yn deillio o bob prosiect a chynllun fel bod lle i asesu effaith bob cynllun sylweddol dros tymor hwy.

**ARGYMHELLION**

7. Gwahoddir y Cyngor i ystyried sylwadau'r Prif Bwyllgor Craffu yn dilyn ei gyfarfod ar 23 Ebrill 2010 i ystyried cynnwys y Cynllun drafft
8. I ystyried y cynlluniau sydd ger bron ar gyfer 2010-11 a chymeradwyo cynllun terfynnol ar gyfer y flwyddyn 2010-11